



Wales
Cymru

Twf Gwyrdd Cymru: Buddsoddi yn y Dyfodol




Twf Gwyrdd Cymru: Buddsoddi yn y Dyfodol

Mae'r prospectws yn amlinellu sut y gallwn greu model economaidd newydd a fydd yn creu cyfoeth ac yn sicrhau twf economaidd heddiw ac yn y dyfodol drwy ddefnyddio ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Mae'n nodi'r prif bethau sydd gennym i'w cynnig o ran:

- Ein cyfoeth o adnoddau naturiol
- Llywodraeth sy'n hyblyg ac yn ymroddedig
- Cymorth ymarferol a phwrpasol i fusnesau

Pam Cymru?

Mae gennym gyfoeth unigryw o adnoddau naturiol ac rydym yn buddsoddi'n sylweddol i adnewyddu ac i ehangu'r seilwaith



Llywodraeth ymroddedig:

Rydym yn creu amgylchedd mwy hwylus i fuddsoddwyr, gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru'n darparu un pwynt cyswllt ar gyfer rheoleiddio amgylcheddol

Cymorth ymarferol:

Rydym yn darparu cymorth pwrpasol i fusnesau

Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC

Prif Weinidog Cymru



Rwyf am weld Cymru'n arwain y byd o ran twf gwyrdd. Yn yr un ffordd ag y chwaraeodd adnoddau naturiol Cymru ran flaenllaw yn y chwyldro diwydiannol cyntaf, gan sbarduno twf y diwydiant haearn a glo ac yna dur a gweithgynhyrchu, gall ein hadnoddau naturiol helaeth sbarduno twf economi newydd a gwahanol fydd wedi'i seilio ar ddefnyddio'r adnoddau hyn mewn ffyrdd cynaliadwy a doeth.

Yn wyneb sefyllfa newydd o ran newid yn yr hinsawdd a cholli adnoddau, rhaid i ni ddeall nad yw'n ddigonol i ni barhau i ddweud ein bod yn gweithredu yn ôl yr arfer wrth ymateb i'r heriau sy'n wynebu economïau blaenllaw'r byd heddiw. Mae'r heriau hyn yn gyfle gwych i Gymru ac rydym am fanteisio i'r eithaf ar y buddiannau y gall yr heriau hyn eu cyflwyno i ni.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu amgylchedd lle y gall busnesau fynd ati'n hyderus i fuddsoddi. Rydym yn creu amodau a fydd yn meithrin ac yn hybu twf gwyrdd, a threfn reoleiddio sy'n gallu ymateb yn gadarnhaol ac yn gyflym i gyfleoedd newydd.

Rwy'n falch o ddweud ein bod eisoes yn cymryd camau breision yn y maes hwn. Rydym yn Llywodraeth sy'n gweithio'n ddeallus ac yn effeithiol i addasu i ddyfodol carbon isel, ffyniannus a hynny mewn ffordd gadarnhaol. Gellir gweld hyn yn y ffordd yr ydym yn ymdrin ag ynni carbon isel. Mae Rhaglen Ynni Cymru yn nodi cyfleoedd ac yn cefnogi buddsoddwyr, busnesau a chymunedau Cymru er mwyn creu prosiectau sy'n fanteisiol i'r buddsoddwr ac sy'n creu budd i economi, cymdeithas ac amgylchedd Cymru hefyd.

Dyma gyfle gwych i ni greu gwell dyfodol ac unwaith eto, chwarae rhan flaenllaw mewn chwyldro hanesyddol. Mae'r prospectws hwn yn disgrifio sut rydym yn bwriadu cyflawni'n huchelgais.

Peter Davies

Y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy



Yn aml, byddwn yn clywed sôn bod y dyfodol eisoes yn ymffurfio o'n hamgylch. Y cyfan sydd angen i ni ei wybod yw ymhle i chwilio amdano. Rwy'n mawr obeithio y bydd y prospectws hwn yn annog cwmnïau i chwilio am gyfle i fuddsoddi yn y dyfodol yr ydym ni'n ei greu yma yng Nghymru.

Un o nodweddion amlwg datganoli yw'r ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy. Yn rhinwedd fy rôl fel Comisiynydd annibynnol a benodwyd i sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei wireddu, rwy'n credu ein bod bellach yn darparu lleoliad lle y gall cwmnïau sy'n rhannu'r gwerthoedd hyn ffynnu.

Mewn marchnad fyd-eang gystadleuol, bydd cwmnïau'n buddsoddi mewn mannau lle y mae'r amodau gorau ar gael i'w galluogi i dyfu'n gynaliadwy yn y tymor hir. I greu'r amodau hyn, mae'n dod yn fwyfwy gofynnol i'r Llywodraeth osod llwyfan ar gyfer twf carbon isel i alluogi cwmnïau i gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau sy'n ymateb i'r lleihad o ran adnoddau naturiol, y cynnydd o ran prisiau deunyddiau, a'r ymdrech fyd-eang i leihau allyriadau.

Mae'r prospectws hwn yn taflu goleuni ar y llwyfan sydd bellach wedi'i osod i ddarparu'r sgiliau, y seilwaith, y gwasanaethau cymorth a'r rhwydweithiau arloesi sydd eu hangen ar gyfer twf gwyrdd; ond yn fwy na hynny, mae'n gosod sylfaen i alluogi busnesau, buddsoddwyr a'r prif sefydliadau cyhoeddus i gydweithio i greu modelau newydd ar gyfer twf cynhwysol a chynaliadwy.

Rwy'n edrych ymlaen at gydweithio â chi i gadarnhau'r weledigaeth a'r amcan yr ydym yn eu rhannu er mwyn creu'r dyfodol y mae ar bob un ohonom ei eisiau.



Yng Nghymru, fe gewch hyd i:

- Gyfoeth o adnoddau ynni, dŵr a morol.
- Buddsoddiad sylweddol i adnewyddu ac i ehangu'r seilwaith.
- Cymorth i fusnesau.

Pam Cymru?

Mae Cymru ar y blaen oherwydd ei hadnoddau naturiol.

Oherwydd ein hadnoddau, mae gennym botensial aruthrol i gynhyrchu ynni carbon isel, gan gynnwys ynni'r llanw (amrediad a ffrwd) ac ynni'r môr, ynni dŵr, ynni'r haul, ac ynni gwynt ar y môr a'r tir.

Yng ngoleuni cyfoeth o asedau naturiol a degawdau o brofiad ym maes ynni sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod pan oedd y diwydiant glo a mathau eraill o danwydd ffosil yn ei anterth, mae pobl yn dal i ddewis Cymru fel gwlad i leoli datblygiadau gwerth biliynau o bunnoedd ynddi, gan gynnwys, er enghraifft, datblygiad niwclear gwerth £12 biliwn yn Wylfa Newydd. Mae prosiectau ynni a allai gynhyrchu dros 15GW yn yr arfaeth yng Nghymru, a'r rheini'n brosiectau sydd wedi cael caniatâd, sy'n cael eu cynllunio neu sy'n cael eu trafod.

Mae gennym gyflenwad dŵr diogel sy'n dod yn gynyddol gydnerth ac sy'n chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddatblygu'n heconomi, gan ganiatáu i ni achub y blaen ar rannau eraill o'r DU a'r byd ehangach.

Mae ein harfordir 1,200km o hyd a'n môr sy'n cwmpasu tua 32,000km² yn gyfle i ni sicrhau twf 'glas'. Mae gennym wybodaeth ac arbenigedd helaeth mewn nifer o wahanol ddiwydiannau sy'n datblygu, gan gynnwys ynni'r môr a dyframaethu.

Mae ein seilwaith hefyd yn sicrhau bod modd i ni achub ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r adnoddau naturiol hyn.

Mae saith porthladd pwysig wedi'u lleoli ar hyd arfordir y gogledd, y gorllewin a'r de. Mae'r rhain yn asedau strategol pwysig. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o Nwy Naturiol Hylifedig (LNG) y DU yn cael ei fewnforio drwy borthladd Aberdaugleddau. Mae ein porthladdoedd, sy'n cynnwys angorfeydd dwfn, yn cyflawni llw o swyddogaethau ac mae cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd da rhyngddynt a dinasoedd mawr a chanolfannau trafniadaeth eraill y DU.

Yn ystod y blynyddoedd nesaf, byddwn yn parhau

i weld buddsoddiad sylweddol yn ein seilwaith, gan gynnwys y buddsoddiadau a ganlyn:

- Erbyn 2016, bydd 96% o'r safleoedd yng Nghymru'n gallu defnyddio band eang ffeibr cyflym iawn
- Bydd Western Power Distribution yn buddsoddi £3 biliwn i uwchraddio ac i gynnal y rhwydwaith rhwng 2015 a 2023
- Mae Wales and West Utilities yn buddsoddi £1 biliwn i uwchraddio ac i gynnal y rhwydwaith nwy rhwng 2013 a 2021
- Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y cwmnïau dŵr sy'n gweithredu'n llwyr neu'n rhannol yng Nghymru'n buddsoddi dros £2 biliwn hyd at 2020
- O dan arweiniad Llywodraeth Cymru, mae rhaglen i gynorthwyo'r awdurdodau lleol i roi'r genhedlaeth nesaf o gyfleusterau trin gwastraff ar waith yn buddsoddi tua £750 miliwn yn y seilwaith gwastraff

Mae dros 41,000 o bobl eisoes yn gweithio mewn gwahanol feysydd yn yr economi werdd, gan gynnwys y diwydiant ynni, y diwydiant gwastraff a'r diwydiant dŵr. Oherwydd ein cryfderau ym maes peirianeg, saernïo dur, y diwydiant awyrofod a'r diwydiant adeiladu, mae gennym gadwyn gyflenwi amrywiol sy'n gwasanaethu economi werdd lewyrchus.

I gynorthwyo busnesau yng Nghymru, rydym yn darparu gwasanaethau cymorth busnes, sylfaen sgiliau, cymhellion ariannol, cymorth i hyfforddi, gofod busnes hyblyg, seilwaith digidol a chyn lleied o fiwrocratiaeth â phosibl.

Fel gwlad ddatganoledig, gallwn weithredu'n gyflym. Mae yma ddigonedd o hyblygrwydd, heb ormod o fiwrocratiaeth. Rydym yn wlad fach, gydgysylltiedig, felly mae pob sector ar ei ennill gan fod cwmnïau preifat, y llywodraeth a'r byd academiaidd yn cydweithio â'i gilydd.

Drwy ddarparu mwy o gymorth ariannol i fusnesau na gweddill y DU a saith Parth Menter dynodedig, mae gennym becyn ariannol grymus i rai sydd am ddod i fuddsoddi yng Nghymru hefyd.

Llywodraeth Ymroddedig

Mae ar farchnadoedd llwyddiannus angen gweledigaeth gref a chlir a threfn reoleiddio effeithiol. Rydym ni yn Llywodraeth Cymru yn rhoi'r naill a'r llall ar waith.

Cyfeiriad strategol clir

Aethom ati i ddiwygio ac i uno ein sefydliadau amgylcheddol, gan sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ebrill 2013. Swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy, gan weithredu fel partner cadarnhaol ym maes twf gwyrdd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun yn rheolwr neu'n berchennog ar 126,000 hectar o goetir a 10,000 hectar o asedau eraill ar hyd yr arfordir a'r afonydd. Mae'n croesawu cyfleoedd masnachol addas i fuddsoddi yn yr asedau hyn.

Gan adeiladu ar ein dyletswydd unigryw o ran datblygu cynaliadwy, rydym yn pennu nodau statudol hirdymor ac uchelgeisiol sy'n adlewyrchu'r Gymru yr ydym ni am ei gweld yn awr ac yn y dyfodol. Bydd y nodau hyn yn ategu ein hymrwymiad i sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud, a byddwn yn rhwymo'r sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd i weithredu.

Mae twf a swyddi cynaliadwy'n ganolog i'n Rhaglen Lywodraethu. Cyflawni'r rhain yw ein prif flaenoriaeth. Rydym wedi cymryd camau pendant a phellgyrhaeddol i wella sefyllfa busnesau yng Nghymru, gan roi blaenoriaeth i bum maes a fydd yn llywio ein gweithgareddau twf:

- Buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o safon
- Sicrhau bod Cymru'n lle mwy deniadol i wneud busnes ynddo
- Ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau
- Hybu gwyddoniaeth ac arloesi
- Targedu'r cymorth busnes a ddarperir gennym

Fframwaith rheoleiddio modern

Drwy Fil yr Amgylchedd, rydym yn deddfu i sefydlu fframwaith statudol modern ac unedig ym maes rheoli adnoddau naturiol, a hynny er mwyn helpu i symleiddio'r trefniadau rheoleiddio ac i nodi cyfleoedd newydd posibl ar gyfer twf gwyrdd.

Bydd y Bil yn diffinio dull newydd o reoli adnoddau naturiol mewn modd integredig, gan bennu blaenoriaethau strategol clir ar gyfer adnoddau naturiol, gan gynnwys cyfleoedd i fuddsoddi ac i gydweithio â busnesau mewn meysydd fel effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff.

O dan ein agenda Cynllunio Cadarnhaol, ein nod yw moderneiddio'r system gynllunio drwy lunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n nodi ein blaenoriaethau o ran defnyddio tir. Bydd yn gwneud hynny drwy bennu lleoliadau allweddol lle y gellir cyflwyno newid a buddsoddi yn y seilwaith. Mae'n cynnig mai Gweinidogion Cymru fydd yn prosesu datblygiadau ynni rhwng 25 a 50MW ac yn penderfynu arnynt, a hynny er mwyn hybu camau i roi datblygiadau ynni adnewyddadwy mawr ar waith o fewn amserlenni pendant.

Buddsoddiad strategol

Rydym wedi ymrwymo i wneud y gorau o'r cyfleoedd i fuddsoddi yn seilwaith Cymru drwy gymell y gwahanol sectorau i gydweithio â'i gilydd. Drwy ddarparu llif glir o weithgareddau arfaethedig o ran y seilwaith, rydym yn sicrhau bod y buddsoddiadau a wneir yn awr ac yn y dyfodol yn fwy amlwg, ond rydym hefyd yn sicrhau bod pob sector yn gwybod amdanynt, a hynny er mwyn gosod sylfaen ar gyfer gweithgareddau'r rhanddeiliaid allweddol ym maes adeiladu a buddsoddi.

Cyhoeddwyd y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ym mis Mai 2012 ac mae'n nodi blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru o ran buddsoddi yn y seilwaith. Ochr yn ochr â'r Cynllun, rydym wedi llunio llif o brosiectau seilwaith sy'n nodi manylion cynlluniau arfaethedig cenedlaethol a lleol,

Yng Nghymru, fe gewch hyd i:

- Fframwaith cyfreithiol sy'n caniatáu i ni reoli ein hadnoddau mewn ffordd gydgyssylltiedig.
- Cyfoeth Naturiol Cymru – un corff sy'n ymdrin â rheoleiddio amgylcheddol ac sy'n gyfrifol am hybu camau i ddefnyddio'n hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.
- Dull cydweithredol cenedlaethol o gefnogi buddsoddiad yn y seilwaith.



yn ogystal â chynlluniau arfaethedig y sector preifat, i helpu rhanddeiliaid i gynllunio'u buddsoddiadau.

Y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yw'r prif gyfrwng i roi ein penderfyniadau buddsoddi strategol ar waith. Yn sgil cyhoeddi'r Cynllun, bydd dyraniadau cyfalaf ychwanegol a mentrau cyllid arloesol yn sicrhau tua £2.7 biliwn o fuddsoddiad cyfalaf newydd yn economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Ar 19 Tachwedd 2012, cyhoeddodd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ('Comisiwn Silk') ei adroddiad cyntaf, 'Grymuso a chyfrifoldeb: pwerau ariannol i gryfhau Cymru'. Mae'r adroddiad yn awgrymu y dylai Cymru ysgwyddo mwy o atebolrwydd ariannol, drwy roi rhai pwerau trethi a benthyca iddi.

Ar 20 Mawrth 2014, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymateb a gosododd Fil Cymru yn Senedd y DU.

Bydd Bil Cymru:

- yn rhoi pwerau benthyca i ariannu buddsoddiadau cyfalaf (hyd at gyfanswm o £500 miliwn);
- yn rhoi pwerau benthyca (hyd at £500 miliwn hefyd) i reoli amrywiadau cyllidebol yn y tymor byr yn sgil datganoli trethi;
- yn rhoi pwerau i gyflwyno trethi yng Nghymru i ddisodli treth dir y dreth stamp a'r dreth tirlenwi;
- yn rhoi pwerau i greu trethi datganoledig newydd fesul achos;
- yn datganoli'r dreth incwm yn rhannol, os bydd pobl Cymru'n pleidleisio o blaid hynny mewn refferendwm.

Canolfan Arloesi a Gwybodaeth SPECIFIC (cydweithrediad o dan arweiniad Prifysgol Abertawe gyda Tata Steel a chonsortium o bartneriaid diwydiannol ac academaidd byd-eang)

Yng Nghymru, fe gewch hyd i:

- Ddatblygiad Twf Gwyrdd Cymru.
- Buddsoddiad gwerth dros £2 biliwn o dan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, a bron i £1 biliwn o arian drwy ein Rhaglen Datblygu Gwledig.
- Cymorth ar gyfer dulliau arloesol fel Talu am Wasanaethau Ecosystemau.

Cymorth Ymarferol

I sicrhau twf gwyrdd, mae angen i'r gymdeithas sifil fynd ati i'w gefnogi. Fel llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i lywio'r newid hwn.

Mae ein cymorth ymarferol yn seiliedig ar:

- Ei gwneud yn haws
- Rhoi'r arwyddion cywir
- Cefnogi arloesi

Ei gwneud yn haws

Twf Gwyrdd Cymru

Rydym wrthi'n llunio dewisiadau i gefnogi ac i annog buddsoddiad mewn seilwaith sy'n effeithlon o ran ynni ac adnoddau yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar hybu camau i ddefnyddio adnoddau'n well a datblygu cyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel a fydd:

- yn gwella cyfraniad Cymru at ddatblygu cynaliadwy drwy hybu cyfleoedd i gynhyrchu ynni carbon isel a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithiol yng Nghymru
- creu cyflogaeth gynaliadwy
- sicrhau adenillion i fuddsoddwyr er mwyn iddynt gefnogi mentrau eraill

Rydym hefyd yn credu bod potensial i ddatblygu systemau cynhyrchu ynni a gwres sy'n cael eu llywio a'u dosbarthu'n lleol, drwy achub ar gyfleoedd sy'n gysylltiedig â gridiau clyfar ac adeiladau clyfar.

Rydym yn awyddus i siarad â'r gymuned fuddsoddi ynghylch y cyfleoedd posibl sy'n codi o'r llif o gynlluniau sydd yn yr arfaeth yng Nghymru cyn i ni gyflwyno cynigion cadarn yn ddiweddarach eleni.

Cydnorthedd

Mae nifer o ffactorau wedi amharu'n sylweddol ar fusnesau, o ddigwyddiadau tywydd garw i newid hinsawdd, twf gwastraff a phrinder deunyddiau crai.

Rydym yn canolbwyntio ar wella cydnorthedd sylfaenol Cymru drwy fuddsoddi mewn seilwaith

gwyrdd. Rydym yn buddsoddi £245 miliwn i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, gyda chymorth o £50 miliwn o Ewrop.

Llywyddodd ein rhwydwaith o amddiffynfeydd rhag llifogydd i amddiffyn dros 99% o'r tir a'r eiddo a oedd mewn perygl yn ystod y stormydd dros y gaeaf yn 2013/14, sef 74,000 o gartrefi a busnesau a 34,000ha o dir amaethyddol. Bu i hyn atal difrod gwerth bron i £3 biliwn.

Yn ddiweddar, cwblhawyd cynllun Bae Colwyn. Mae'n enghraifft o'r ffordd y gall gwaith i reoli'r arfordir sicrhau buddion o ran perygl llifogydd a hwyluso twf ac adfywiad economaidd ar yr un pryd.

Ar hyd a lled Cymru, mae buddsoddiad arloesol yn cael ei wneud mewn systemau cynaliadwy mawr i reoli dŵr ar draws dalgylchoedd, a hynny er mwyn rheoli ansawdd a llif dŵr gwastraff.

Drwy ein Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid a'n Rhaglen Datblygu Gwledig, rydym yn mynd ati i foderneiddio ein systemau amaethyddol, gan sicrhau ein bod yn fwy cydnorth a chreu cyfleoedd busnes newydd.

Mae ein Cynlluniau Ymaddasiad Sectorol yn meithrin cydnorthedd i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â thywydd eithafol a newid hinsawdd, gan wneud y gorau o'r cyfleoedd sy'n codi ar yr un pryd.

Gwasanaethau cyngori

Ym mis Medi, byddwn yn lansio Cymru Effeithlon o ran Adnoddau. Bydd yn fan canolog lle y bydd modd cael cyngor am ynni, gwastraff ac adnoddau dŵr, a bydd yn cydweithio â'n gwasanaethau cyngori i fusnesau a ffermwyr/tirfeddianwyr.

Rydym eisoes yn buddsoddi'n helaeth ym maes effeithlonrwydd ynni, gan gynorthwyo'r diwydiant i dyfu drwy roi cymorth a chyngor i fusnesau bach a chanolig a thrwy ddatblygu cadwyn gyflenwi gynhwysfawr sy'n gyflogwr pwysig yng Nghymru.

Rhoi'r arwyddion cywir

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu marchnadoedd ar gyfer Gwasanaethau Ecosystemau yng Nghymru o ran carbon, dŵr a bioamrywiaeth.

Mae Cymru mewn sefyllfa dda i ddatblygu'r marchnadoedd hyn a byddwn yn darparu fframwaith clir o strwythurau rheoleiddio, cyllid a llywodraethu.

Rydym yn cychwyn ar y gwaith hwn drwy sefydlu Cronfa Natur newydd gwerth £6 miliwn. Mae potensial ar gael i ddenu buddsoddiad hefyd o Gyfleuster Cyllid Cyfalaf Naturiol newydd yr Undeb Ewropeidd/Banc Buddsoddi Ewrop.

Cyllid uniongyrchol

Mae'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeidd (sy'n cynnwys y Cronfeydd Strwythurol, cronfeydd y Rhaglen Datblygu Gwledig a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop) yn buddsoddi tua £2.5 biliwn ar hyd a lled Cymru rhwng 2007 a 2016. Ochr yn ochr â chronfeydd ychwanegol o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, bydd cyfanswm o dros £4 biliwn yn cael ei fuddsoddi.

Rydym yn disgwyl i swm tebyg gael ei fuddsoddi rhwng 2014 a 2023 mewn meysydd a fydd yn cynnwys cystadleurwydd busnesau bach a chanolig, ymchwil ac arloesi, seilwaith a sgiliau ym maes ynni adnewyddadwy, defnyddio adnoddau ac ynni'n effeithlon, cysylltedd a datblygu cynaliadwy.

Mae ein Rhaglen Datblygu Gwledig yn buddsoddi bron i £1 biliwn i gefnogi marchnadoedd newydd ac i wella busnesau er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy ac arloesol i ddiwydiannau'r tir ac i'r gadwyn cyflenwi bwyd.

Cefnogi arloesi

Fel llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i gefnogi ac i ddatblygu capasiti ymchwil ac arloesi Cymru, gan gefnogi partneriaethau rhwng sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Rydym wedi neilltuo hyd at £50 miliwn i raglen ymchwil Sêr Cymru. Bydd y rhaglen yn hybu ein gallu i gyflawni ymchwil drwy sefydlu rhwydweithiau ymchwil cenedlaethol a chadeiriau ymchwil sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol ym maes peirianeg a deunyddiau uwch, gwyddorau bywyd ac iechyd, ac ynni carbon isel a'r amgylchedd.

Mae gan Gymru ganolfan ragoriaeth sy'n cael ei chydabod yn rhyngwladol ym maes y gwyddorau biolegol, amgylcheddol a gwledig. Mae'n gweithio ar nifer o brosiectau uchel eu proffil, gan gynnwys biodanwydd a diogelwch bwyd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydweithio â'r byd academiaidd a chwmnïau technoleg blaenllaw i greu cyfleoedd i arloesi yn y maes carbon isel, fel y Ganolfan Peirianeg Cynnyrch Cynaliadwy ar gyfer Caenau Diwydiannol Swyddogaethol Arloesol (SPECIFIC). Gallai'r dechnoleg y mae'r Ganolfan hon yn gweithio arni ganiatáu i adeilad modern o ddur fod yn grid ynni sy'n hunangynhaliol i raddau helaeth.

Rydym yn awyddus i drafod y cyfleoedd a nodir yn y prospectws hwn gyda chi greenrowth@wales.gsi.gov.uk



Chwarel Lechi Dinorwig a Gorsaf Bŵer Dinorwig, Llanberis.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

greengrowth@wales.gsi.gov.uk